# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 21 Mehefin 2000 i'w hateb ar 05 Gorffennaf 2000**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn y Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

I Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**1. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff hi ddatganiad ar oblygiadau'r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i Gymru. (OAQ6261)

**2. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau a gymerwyd ganddi i sicrhau bod cynnig y Cynulliad ar 10 Mai ar y newid yn yr hinsawdd yn cael ei weithredu'n llawn. (OAQ6229)

**3. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all hi gyflwyno adroddiad ar unrhyw waith ymchwil sydd ar gael, neu sydd ar y gweill, i asesu'r niwed a achosir i dirlun Cymru gan dyrbinau gwynt. (OAQ6222)

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar sut y mae polisïau cynllunio y Cynulliad yn effeithio ar Ganol De Cymru. (OAQ6258)

**5. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Beth mae hi'n bwriadu'i wneud i annog awdurdodau lleol sydd â lefelau ailgylchu sy'n is na'r cyfartaledd i wneud yn well yn hyn o beth. (OAQ6227)

**6. Geraint Davies (Rhondda);** A oes unrhyw sylwadau wedi dod i law oddi wrth garafanwyr Sandy Bay ynghylch y ffaith iddynt gael eu troi allan o'u safle ym Mhorthcawl am fod yna

fwriad i ddatblygu'r safle hwnnw. (OAQ6260)

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A oes unrhyw fwriad i ailgyflwyno'r Prosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol. (OAQ6272)

**8. Elin Jones (Ceredigion);** Pryd y bydd yn cyfarfod â Chyngor Cefn Gwlad Cymru nesaf i drafod y cynnydd a wnaed tuag at fodloni'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. (OAQ6254)

**9. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa sylwadau sydd wedi dod i law ynghylch datblygu mwy o ffermydd gwynt yn Sir Drefaldwyn, ac a wnaiff ddatganiad. (OAQ6245)

**10. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i sicrhau gweithredu'n llawn y cynnig a basiwyd gan y Cynulliad ar newid hinsawdd ar 10 Mai. (OAQ6273) W

**11. Geraint Davies (Rhondda);** Faint o drydan sy'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru sydd heb fod yn ddibynnol ar nwyon tirlenwi. (OAQ6252)

**12. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi amlinellu'r strategaethau sydd ganddi i ddiwygio'r rheoliadau cynllunio gyda golwg ar gynigion arallgyfeirio y Cynulliad. (OAQ6263)

**13. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A fyddai'n barod i ystyried cyflwyno rheoliadau a fyddai'n golygu yn byddai awdurdodau lleol yn arfer rheolaeth gynllunio ar newid enwau tafarnau. (OAQ6242)

**14. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa ddatblygiadau a fu o ran llunio strategaeth ynni adnewyddadwy a bio-màs i Gymru, ac a wnaiff hi ddatganiad. (OAQ6244)

**15. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Beth y mae'n bwriadu ei wneud i leihau tagfeydd yn nhwnelau Bryn Glas ar yr M4. (OAQ6264)

**16. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A fydd yn gwneud datganiad ar yr ymchwiliad arfaethedig i gladdfa Nant-y-Gwyddon sydd wedi ei dynnu'n ôl. (OAQ6269)

**17. Lynne Neagle (Tor-faen);** A fydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gwneud datganiad ar *Strategaeth Wastraff 2000* a'r goblygiadau i Gymru. (OAQ6262)

**18. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Beth mae'r Cynulliad yn bwriadu ei wneud i ddelio â'r broblem o ddiogelwch ar y ffyrdd, yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Diogelwch Ffyrdd, Llywodraeth Prydain Fawr. (OAQ6247)

**19. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Fforwm Cynllunio wedi ymgynghori â'r cwmnïau ynni adnewyddadwy sydd yng Nghymru. (OAQ6250)

**20. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A fydd yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu 'Design Guide Service' i gynorthwyo ceisiadau cynllunio yn yr ardaloedd gwledig. (OAQ6256)

**21. Dr Brian Gibbons (Aberafan);** A oes unrhyw waith wedi'i wneud i glustnodi ehangder a tharddiad llygredd dr mewndirol yng Nghymru. (OAQ6219)

**22. David Melding (Canol De Cymru);** Pa gamau a gymerir i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru. (OAQ6239)

**23. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A fydd yn ystyried cynnwys safonau cynllunio yn y Canllawiau Polisi Cynllunio. (OAQ6253)

**24. David Davies (Mynwy);** A fydd yn ystyried cymhwyso'r safonau ansawdd dr a ddisgrifir yn y Gyfarwyddeb Dr Ymdrochi i'r holl ddyfroedd hamdden yng Nghymru. (OAQ6225)

**25. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Sut y mae'n fwriad ganddi sicrhau y cyrhaeddir y targedau a osodwyd ar gyfer ailgylchu yn Gwell Cymru. com. (OAQ6228)

**26. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud ar gyfer beicwyr sy'n teithio i ardal y Bae. (OAQ6248)

**27. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'n fwriad ganddi gyflwyno unrhyw gynlluniau newydd a fydd yn hyrwyddo defnyddio mwy o safleoedd 'tir llwyd' ar gyfer prosiectau adeiladu newydd. (OAQ6221)

**28. Karen Sinclair (De Clwyd);** A wnaiff roi sicrwydd y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn mynd i'r afael â chwestiwn Canllawiau Cynllunio ar gyfer adeiladau fferm, a hynny ar fyrder. (OAQ6241)

**29. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa gamau i helpu plant ysgol sy'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau diogelwch ffordd yng Nghymru. (OAQ6271)

**30. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff gyflwyno adroddiad ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar yr Hawl i Grwydro i berchenogion tir. (OAQ6265)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai

**1. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Sut mae'n bwriadu cael y gwerth gorau o'r Cynlluniau Perfformiadau Gwerth Gorau. (OAQ6297)

**2. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod awdurdodau lleol yn hysbysebu swyddi gwag yn y wasg leol. (OAQ6238)

**3. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ar foderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru. (OAQ6281)

**4. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ddod ymlaen â gorchymyn o dan adran 31 o'r Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid i gynnal yr egwyddor o 'renti teg'.(OAQ6211)

**5. David Melding (Canol De Cymru);** A ydyw wedi derbyn cynrychiolaethau ar foderneiddio llywodraeth leol. (OAQ6236)

**6. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff roi diweddariad ar waith y Cyngor Partneriaeth gyda llywodraeth leol. (OAQ6282)

**7. Dr Brian Gibbons (Aberafan);** Beth yw cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer dyfodol grantiau gwella tai. (OAQ6207)

**8. Elin Jones (Ceredigion);** Sut y bydd yn gweithredu i ymladd torcyfraith mewn ardaloedd gwledig yn y 6 mis nesaf. (OAQ6285)

**9. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sut mae'n bwriadu moderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru. (OAQ6280)

**10. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sut mae'n bwriadu gwella llywodraeth leol yng Nghymru. (OAQ6279)

**11. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa gamau y bydd yn eu cymryd i sicrhau gweithredu penderfyniad y Cynulliad ar ddigartrefedd ar 20 Mehefin 2000. (OAQ6295)W

**12. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar rôl y Cynulliad Cenedlaethol wrth archwilio'r cynlluniau perfformiadau gwerth gorau a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru. (OAQ6291).

**13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gamau y bydd yn eu cymryd i sicrhau y gweithredir penderfyniad y Cynulliad ar ddigartrefedd a gymeradwywyd ar 20 Mehefin 2000. (OAQ6232)

**14. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A ydyw wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar faterion sy'n ymwneud â digartrefedd yn ystod y 6 mis diwethaf ac a wnaiff ddatganiad. (OAQ6284)

**15. Geraint Davies (Rhondda);** Faint o Awdurdodau Lleol Cymru sydd wedi yngymryd ag arolwg o gyflwr tai. (OAQ6293

**16. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa ystyriaeth y mae wedi'i roi i hyfforddi cynghorwyr ar bwyllgorau archwilio. (OAQ6287)

**17. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i weithredu penderfyniad y Cynulliad ar ddigartrefedd a wnaed ar 20 Mehefin 2000. (OAQ6231)

**18. Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa rôl fydd y Cynulliad yn ei chwarae i ostwng troseddu ar ystadau tai yng Nghymru. (OAQ6278)

**19. Peter Black (Gorllewin De Cymru)** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch trwyddedu llety sy'n cael ei osod yn breifat. (OAQ6215)R

**20. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch pa gamau a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf o ran mynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio sy'n aros i'w wneud ar dai awdurdodau lleol. (OAQ6214)

**21. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A ydyw wedi cael trafodaeth â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r brif ddeddfwriaeth sydd ei hangen cyn y gellir cyflwyno cynllun statudol ar gyfer trwyddedu Tai Amlbreswyliaeth. (OAQ6217).

**22. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gynnydd a wnaed o ran sefydlu gweithgor i ystyried Lwfansau Cynghorwyr. (OAQ6292)R

**23. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff adrodd ar ei waith diweddar i sicrhau bod effeithlonrwydd ynni cartref yn cael ei hybu yng Nghymru. (OAQ6274)

**24. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa gamau y mae wedi'u cymryd yn dilyn penderfyniad y Cynulliad ar 16 Mai i lunio mesurau i gysylltu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref i strategaeth adnewyddu gynhwysfawr yn y sector preifat. (OAQ6230)

**25. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes ganddo unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun i ffrwyno'r enghreifftiau o gamreolaeth yn awdurdodau lleol Cymru

(OAQ6208).

**26. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A ydyw wedi cael unrhyw drafodaethau gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau ynghylch y categorïau o dai sydd i’w cynnwys yn y brif ddeddfwriaeth arfaethedig fydd yn sbarduno cynllun trwyddedu ar gyfer Tai Amlbreswyliaeth yng Nghymru. (OAQ6218)

**27. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch adolygiad y Comisiwn Ffiniau yn Llangollen (OAQ6286).

**28. Jane Davidson (Pontypridd);** Pa gymorth y mae’r Cynulliad yn medru ei roi i awdurdodau lleol mewn perthynas â ffurfio "parthau" o dai amlbreswyliaeth i fyfyrwyr mewn mannau penodol mewn trefi Prifysgol. (OAQ6276).

**29. David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch rhoi mwy o bwerau i Awdurdodau Lleol Cymru i ddelio â fforddolion sy’n ymsefydlu ar dir heb ganiatâd. (OAQ6213).

**30. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw’n bwriadu cyflwyno unrhyw gynlluniau newydd a fydd yn cyfrannu at adfywio ardaloedd trefol trwy wneud mwy o ddefnydd o anheddau gwag mewn ardaloedd yng nghanol dinasoedd a threfi. (OAQ6209).